**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

# NAFWC 2009 (Papur 6)

**Dyddiad:** 23 Mawrth 2009
**Amser:** 1.30pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 4B

# Adroddiad y Bwrdd Rheoli i Gomisiwn y Cynulliad – Mawrth 2009

## 1. Amcanion Strategol Comisiwn y Cynulliad

### 1.1 Amcan strategol - hyrwyddo datganoli ac annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses

(a) Sylw yn y cyfryngau

Cafwyd sylw helaeth yn y wasg ers mis Ionawr. Yn benodol, bu'r sylw i daith y Llywydd yn llwyddiannus iawn. Cychwynnodd y daith yn Abertawe ar 29 Ionawr a chafodd lawer iawn o sylw ar BBC Radio Wales a Radio Cymru, a chafwyd erthyglau yn ei gylch yn y Western Mail, y Daily Post a'r South Wales Evening Post.

Mae clipiau sain o gadeiryddion y pwyllgorau bellach yn cael eu hanfon gyda datganiadau i'r wasg ar gyfer lansio adroddiadau. Defnyddiwyd y rhain gan orsafoedd radio ledled Cymru. Rhoddwyd sylw sylweddol i adroddiadau pwyllgorau, megis adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu yn dilyn ei ymchwiliad i Faich Gwaith Athrawon, ac adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat.

Cafwyd peth sylw negyddol ynghylch costau ymweliad y Pwyllgor Deisebau â'r Alban ac ynghylch Medal Cymru. Rhoddwyd mwy o sylw hefyd i dreuliau Aelodau'r Cynulliad.

O fewn yr wythnos ddiwethaf, rhoddwyd sylw i'r materion a godwyd gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol yn Senedd y DU ynghylch y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Tai Fforddiadwy.

### 1.2 Amcan Strategol – undod ac arweiniad ac ymateb yn feiddgar i newidiadau cyfansoddiadol

(a) Y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen ddeddfwriaethol

Cyrhaeddwyd nifer o gerrig milltir pellach yn natblygiad y Cynulliad fel deddfwrfa:

- Gosodwyd Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) (Tai) 2008 gerbron y Cynulliad ar 12 Ionawr ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Ionawr 2009;
- Gosodwyd Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2008 gerbron y Cynulliad ar 8 Rhagfyr 2008. O ganlyniad, tynnodd Helen Mary Jones ei chynnig i gyflwyno Gorchymyn ynghylch gofalwyr yn ôl. Mae'r Gorchymyn yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 ar hyn o bryd;
- Cyflwynwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 ar 2 Chwefror 2009 a dechreuodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ei ystyried ar 10 Chwefror;
- Cwblhawyd ystyriaethau Cyfnod 2 y Mesur Arfaethedig ynghylch Dysgu a Sgiliau (Cymru) ar 28 Ionawr a dechreuodd Cyfnod 3 ar 29 Ionawr. Bydd y ddadl Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnal ar 17 Mawrth a bydd Cyfnod 4 yn digwydd ar yr un diwrnod. Os cymeradwyir y Mesur, disgwylir i'r Cydsyniad Brenhinol gael ei roi yn ystod cyfarfod y Cyfrin Gyngor ar 13 Mai;
- Cwblhawyd Cyfnod 2 y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) ar 5 Mawrth. Dechreuodd Cyfnod 3 ar 6 Mawrth;
- Cyflwynwyd y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) ar 2 Mawrth ac fe'i cyfeiriwyd at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 ar gyfer ystyriaethau Cyfnod 1;
- Cynhaliodd y Llywydd falot ar 28 Ionawr i benderfynu pa Aelod Cynulliad a allai gyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth. Roedd Jenny Randerson yn llwyddiannus gyda'i hamlinelliad o Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Arfaethedig ynghylch Cynlluniau Teithio Datblygiadau Mawr. Ni chyflwynwyd unrhyw gynigion ar gyfer Mesurau yn y balot.

## 1.3 Amcan Strategol – parch, cywirdeb a llywodraethu da

(a) Cynllunio ar gyfer Etholiad 2011 a'r Pedwerydd Cynulliad

Bydd y Cynulliad yn cael ei ddiddymu am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2011. Mae hyn yn golygu, am tua mis cyn yr etholiad, y bydd yr Aelodau'n peidio â bod yn Aelodau Cynulliad. Mae hwn yn newid sylweddol i'r trefniadau a gafwyd cyn etholiadau blaenorol, pan fyddai'r Aelodau'n cadw eu statws hyd at hanner nos y diwrnod cyn diwrnod yr etholiad. Mae'r newid, a gyflwynwyd drwy Ddeddf 2006, yn cysoni gweithdrefnau'r Cynulliad gyda rhai San Steffan, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yr effeithiau ymarferol yw y bydd mwy o gyfyngiadau ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad nag a fu yn y cyfnodau cyn etholiadau blaenorol. Bydd angen rhoi cymorth a chyngor priodol mewn da bryd, fel y gall yr holl Aelodau a'u staff baratoi'n iawn. Byddwn yn dechrau cynllunio ar gyfer etholiadau'r Pedwerydd Cynulliad yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Cyflwynir adroddiad llawnach ar y materion perthnasol i gyfarfod y Comisiwn ym mis Mehefin.

(b) Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 12 Chwefror i ystyried amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag archwilio a llywodraethu wrth i'r

flwyddyn ariannol dynnu at ei therfyn. Ymysg yr eitemau hynny roedd papurau sy'n ymwneud â strategaeth Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyfrifon y flwyddyn, a chymeradwyodd y Pwyllgor y cynllun a'r amserlen i sicrhau y byddent yn cael eu gosod cyn toriad yr haf, fel y digwyddodd y llynedd. Ystyriwyd ystod o adroddiadau archwilio mewnol gan gynnwys Rheolaethau Ariannol Allweddol, Rheoli Asedau TG a Rheoli Risg. Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am rheoli risg a rhoddodd gyngor ar y Polisi Twyll drafft a'r Cofrestr Asedau Gwybodaeth a ddatblygwyd i osgoi colli data o fewn y sefydliad. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi adolygu ei effeithiolrwydd ei hun hefyd yn ystod ei flwyddyn lawn gyntaf.

(c) Confensiwn Cymru Gyfan

Fis diwethaf, cyflwynodd Keith Bush ac Adrian Crompton dystiolaeth ysgrifenedig a llafar i Gonfensiwn Cymru Gyfan. Yn benodol, aethant i'r afael ag un rhan o ymgynghoriad cyhoeddus y Confensiwn ar statws cyfansoddiadol y Cynulliad, sef a oes "*unrhyw faterion biwrocrataidd neu faterion o ran adnoddau* … [o fewn] *Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad y byddai angen mynd i'r afael â hwy cyn y gellid trosglwyddo pwerau i basio Deddfau i'r Cynulliad?"*

Ceir y linciau i'w tystiolaeth ysgrifenedig a llafar isod:
Cyflwyniad yn Gymraeg Cyflwyniad yn Saesneg Trawsgrifiad

Prif gasgliad tystiolaeth Keith ac Adrian oedd: "*Mae'r holl sgiliau angenrheidiol ar gael eisoes er mwyn ymdrin â'r gwaith o ystyried Deddfau Cynulliad pe bai unrhyw gam o'r fath yn cael ei gymryd. Erbyn diwedd tymor presennol y Cynulliad, bydd modd i'r staff sy'n ymdrin â gwaith deddfwriaethol y Cynulliad ymdopi gydag unrhyw gynnydd yn swmp y gwaith deddfwriaethol dan sylw*".

Ers hynny, mae'r Confensiwn wedi gwneud cais am fwy o wybodaeth am gapasiti'r Cynulliad i graffu ar ddeddfwriaeth a gwaith Llywodraeth Cymru, y camau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i hyrwyddo ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r Cynulliad, a swyddogaethau perthnasol Aelodau rhanbarthol ac etholaethol.

(d) Cyfarfod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Ym mis Chwefror, cyfarfu Claire ac Adrian gyda Phrif Weithredwr ac uwch swyddogion eraill Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i drafod perthynas y sefydliad â'r Cynulliad. Dyma rai o'r prif bwyntiau a'r camau gweithredu a nodwyd:

- mae'r Pwyllgor Deisebau a'r system ddeisebau, a oedd wedi achosi pryder i lywodraeth leol yn flaenorol, yn gweithio'n llawer gwell o'u safbwynt hwy ers cytuno ar brotocol rhwng y Pwyllgor a'r gymdeithas;
- mae'r ffaith bod gofyn i'r gymdeithas gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i bwyllgorau'n aml yn gryn faich arni. Cynigiwyd trefnu cyfarfodydd rheolaidd rhwng staff uwch y pwyllgorau a'r gymdeithas i drafod busnes y pwyllgorau yn y dyfodol, a hynny er mwyn i'r gymdeithas allu tynnu sylw at y materion sy'n fwyaf perthnasol iddi a rheoli sut mae'n rhyngweithio â'r

pwyllgorau'n well. Bydd Sulafa Halstead, Sian Wilkins a Kathryn Potter yn cwrdd â'r swyddogion cyfatebol yn y gymdeithas ar 30 Mawrth;

- byddwn yn gweithio gyda'r gymdeithas i edrych ar wneud defnydd o'i rhwydwaith o ymgynghorwyr llywodraeth leol arbenigol. Byddai'r rhain, yn benodol, yn gallu cynorthwyo'r Aelodau a'r pwyllgorau yn ystod cyfnodau cynnar datblygu deddfwriaeth a arweinir gan Aelodau neu ymchwiliadau pwyllgorau;
- rydym wedi rhoi manylion i'r gymdeithas am y system falot ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth gan Aelodau unigol. Drwy wneud hynny, gall y gymdeithas gyfrannu os ydynt am annog syniadau am Orchmynion neu Fesurau a gynigir gan Aelodau.

(e) Adolygu'r canllawiau

Anfonwyd canllaw drafft diwygiedig ynghylch gwefannau a'r defnydd o adnoddau'r Cynulliad, a'r Rheol Sefydlog ddrafft ar ddatgelu gwybodaeth ynghylch cyflogi aelodau o'r teulu, at bob Aelod ar gyfer ymgynghori arno. Mae'n gofyn iddynt gyflwyno'u sylwadau erbyn toriad y Pasg. Rhoddir gwybod am unrhyw themâu cyffredin sy'n codi yn ystod cyfarfod y Comisiwn. Rydym yn bwriadu cadarnhau'r canllaw cyn diwedd toriad y Pasg a gosod y Rheol Sefydlog ddrafft fel testun dadl yn gynnar yn nhymor yr haf.

(f) Cyhoeddi manylion cyflogau a lwfansau

Rydym yn chwilio am system TG ar hyn o bryd a fydd yn gwella sut y caiff lwfansau Aelodau eu casglu a'u cyhoeddi ar ein gwefan. Mae gennym gyflenwr sy'n cael ei ffafrio ac rydym ar hyn o bryd yn trafod amodau'r cytundeb. Gellir gweld y model yr ydym yn ei ddilyn wrth ddatblygu'r system ar wefan Senedd yr Alban:-

http://mspallowances.scottish.parliament.uk/MSPAllowances/

Dyluniwyd y system i alluogi defnyddwyr i ddewis Aelod neu Aelodau, blwyddyn y ceisiadau dan sylw a'r mathau o geisiadau. Wrth gwrs, byddai gan yr Aelodau gyfle i wirio unrhyw ddata cyn iddo gael ei gyhoeddi, a byddai angen cynnwys amser yn y broses ar gyfer ymgynghori a gwirio.

Bu llawer o drafod yn y cyfryngau ynghylch pa mor rheolaidd y caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi. Awgrymwyd y dylid ei chyhoeddi bob mis. Byddai'n bosibl cyhoeddi'r ceisiadau a gaiff **eu talu** yn ystod mis penodol ar bwynt penodol ym mhob mis, ond mae gan Aelodau gyfnod o dri mis cyn eu bod yn gorfod cyflwyno eu ceisiadau. Mae'n bosibl hefyd ad-dalu neu wirio ceisiadau anghywir. Felly, efallai na fyddai'r wybodaeth a gyhoeddir yn adlewyrchu'r holl wariant mewn cyfnod penodol, a gallai hynny achosi dryswch. Yn yr Alban, ceir cyfnod cyhoeddi o dri mis. Byddai'n bosibl i ni gyhoeddi ffigurau newydd bob mis, ond cyfeirio fyddai'r rhain at fis sydd dri mis o flaen y mis cyhoeddi. Byddem yn argymell y system hon, yn amodol ar farn y Comisiwn.

## 1.4 Amcan Strategol – gweithio'n gynaliadwy

Rydym wedi cymryd camau breision tuag at wella ein perfformiad o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae ein strategaeth (ddrafft) bellach yn cynnwys y fframwaith a ddefnyddiwn i wella ein perfformiad ymhellach. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar integreiddio cynaliadwyedd yn rhan o swyddogaethau'r Cynulliad ac ar wella sut mae'n gweithredu. Mae'r gweithgareddau diweddar o ran hyn yn cynnwys:

- ysgrifennu drafft cyntaf o Gynllun Teithio'r Cynulliad;
- edrych ar y cyfleoedd i wrthbwyso carbon drwy gynlluniau microgynhyrchu a arweinir gan gymunedau;
- cynnal ymgynghoriad ymysg defnyddwyr ar-lein ynghylch y defnydd o "gwpanau am oes";
- paratoi i lansio gwefan rhannu ceir ar-lein ym mis Mawrth 2009;
- cwblhau manylion cynllun beicio aberthu cyflog i'w lansio ym mis Ebrill 2009;
- asesu gyda Charlton House a fyddai'n addas compostio bwyd ar y safle a defnyddio cwpanau bioddiraddiadwy untro;
- cyfarfod gyda Biffa i drafod dyfodol y contract rheoli gwastraff;
- rhaglen hyfforddi a chyfnewid archwilwyr amgylcheddol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- comisiynu astudiaeth arbenigol gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon (sydd wedi cynnig 50% o'r cyllid) ar sut y gallwn wella ein perfformiad ynni ar ystâd y Cynulliad.

Rydym yn cynllunio adroddiad cynhwysfawr ar gyfer y Comisiwn a fydd yn cynnwys penderfyniadau anodd ynghylch sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswydd statudol i weithio'n gynaliadwy.

## 1.5 Amcan Strategol - y gwasanaeth gorau, wedi'i ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol

(a) Y rhaglen datblygu arweinyddiaeth

Bydd cyfnod nesaf y rhaglen datblygu arweinyddiaeth, ar y cyd â Carter Corson, yn canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth yn ymwneud ag ymddygiad. Credir mai dyma fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol arnom ni fel sefydliad. Y blaenoriaethau hyn yw cyfrifoldeb ar y cyd, cydnabyddiaeth ac atebolrwydd, sicrhau cydbwysedd, ac eglurder a chyd-destun.

(b) Cymorth busnes i'r Aelodau

Mae'r tîm yn datblygu rhaglen wella i fynd i'r afael â'r materion a godwyd drwy'r Arolygon o Fodlonrwydd yr Aelodau, a gobeithio y bydd yr Aelodau wedi sylwi ar welliannau cynnar o ran dull y tîm o gyfathrebu. Bwriedir cyflwyno papur i Gomisiwn y Cynulliad yn yr hydref ynghylch yr holl welliannau a wnaed i'r Cymorth Busnes a ddarperir i'r Aelodau.

(c) Rheoli asedau

Cyflwynwyd papur i'r Comisiwn ym mis Gorffennaf 2008, a hwnnw'n amlinellu'r egwyddorion allweddol a phosibiliadau strategaeth i reoli asedau, yn ogystal â materion cyfredol a materion yn y dyfodol y bydd yn rhaid eu

hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth. Mae gwaith pellach ar y gweill i gasglu a nodi'r dystiolaeth a'r data presennol fel sail i'r strategaeth, tra bo angen ystyried yn fanwl yr anghenion a'r gofynion ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys dadansoddi a meincnodi'r broses o gynllunio a defnyddio gofod gyda sefydliadau eraill. Bydd y gwaith hwn yn ein galluogi i nodi opsiynau a blaenoriaethau i'r Comisiwn eu cymeradwyo, ynghyd â chwblhau'r strategaeth i reoli asedau. Rhagwelir y cyflwynir adroddiad pellach i'r Comisiwn yn yr hydref.

(d) Gwagio'r adeilad yn achos tân

Mae cynnal driliau tân blynyddol yn ofyniad cyfreithiol. Cynhaliwyd dril gwagio'r adeilad yn achos tân ar 19 Chwefror yn Nhŷ Hywel. Roedd y dril yn llwyddiannus, a gwagiwyd yr adeilad mewn saith munud. Llwyddasom i nodi ac unioni rhai materion technegol a rhai meysydd y gellid eu gwella. Bydd dril yn cael ei gynnal hefyd yn y Senedd yn y dyfodol agos, ar adeg pan na fydd hynny'n amharu ar fusnes.

(e) Diogelwch yn y Senedd

Mae gwella'r wybodaeth ynghylch mynediad i'r Cwrt ar ddyddiau busnes wedi helpu'r staff i gynghori'n fwy effeithiol ynghylch hyn. Anfonir y protocol diwygiedig (y mae'r Comisiynwyr wedi ei weld) at bob Aelod cyn hir. Rhaid gwneud rhai trefniadau o flaen llaw i sicrhau na fydd hyn yn achosi gormod o anghyfleustra i'r Aelodau a'u staff cymorth.

(f) Datblygiad proffesiynol ar gyfer staff gweithdrefnol

Un o flaenoriaethau Cyfarwyddiaeth Fusnes y Cynulliad yw datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth gyffredin ynghylch gweithdrefnau ac arferion y Cynulliad ymysg y staff hynny sy'n cynghori Aelodau'n uniongyrchol ynghylch busnes y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau. Penodwyd aelod o staff ym mis Tachwedd 2008 i arwain agweddau penodol ar y gwaith datblygu proffesiynol hwn. Rydym wedi dechrau rhaglen o fwletinau a gweithdai gweithdrefnol ar gyfer staff ar draws y Gyfarwyddiaeth ac rydym yn datblygu Llawlyfr gweithdrefnol ar gyfer y staff sy'n cynghori'r Aelodau yn y Cyfarfodydd Llawn a'r pwyllgorau. Rydym hefyd yn rhagweld y cyhoeddir Cydymaith i'r Rheolau Sefydlog a fydd yn cynnwys cyngor ymarferol a gweithdrefnol i'r Aelodau ar weithdrefnau busnes y Cynulliad a'r Rheolau Sefydlog.

## 2. Gweithgareddau a digwyddiadau allweddol

### 2.1 Busnes y Cynulliad

(a) Darlledu

Mae darlledu wedi dod yn rhan o waith yr adran technoleg gwybodaeth. Mae hynny wedi golygu bod modd cael cyfryngau newydd ar gyfer darparu cynnwys er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn meithrin cysylltiad ehangach gyda'r cyhoedd. Bydd y strategaeth yn ceisio gwneud y mwyaf o botensial y meysydd newydd hyn drwy:

- integreiddio'r gwaith ar ddarlledu gyda gwaith arall, gan greu cysylltiad clir â'n hamcanion a'n strategaethau cyfathrebu a'n strategaethau ar gyfer y cyfryngau er mwyn gwella'r gwaith o feithrin cysylltiad gyda'r cyhoedd;
- cefnogi'r egwyddor o wneud yn siŵr bod trafodion y Cynulliad sy'n cael eu ffilmio ar gael i gymaint o bobl ag sy'n bosibl drwy rannu'r ffilmiau gyda sefydliadau cyfryngau newydd;
- cymeradwyo archwilio pellach i newidiadau i dagio 'byw' a chwiliadau archifau digidol, a fydd ar gael ar-lein i sefydliadau allanol;
- penderfynu a ddylid cynnal astudiaeth bellach ar ddigideiddio archif ffilm y Cynulliad sy'n mynd yn ôl i 1999, gan weithio mewn partneriaeth â Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- sicrhau bod y cytundeb darlledu (sydd i'w ail-dendro yn fuan) yn cefnogi'r amcanion hyn.

Bydd y Comisiwn yn cael papur llawn ar y materion hyn cyn hir.

2.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Pierhead

Mae prosiect y Pierhead wedi cyrraedd carreg filltir bwysig yn dilyn cyflwyno'r cais am ganiatâd adeilad rhestredig i Gyngor Sir Caerdydd. Mae amseru'r caniatâd hwn yn hanfodol i'r cynllun prosiect a'r agoriad arfaethedig yn yr hydref. Mae Cyfnod 1 y gwaith paratoi cyn dechrau adeiladu yn agos at gael ei gwblhau a bwriedir i'r dyluniad manwl ar gyfer Cyfnod 2 gael ei gwblhau erbyn 20 Mawrth, sef carreg filltir allweddol arall ar gyfer y prosiect. Bydd hyn felly'n galluogi i'r broses gaffael ar gyfer Cyfnod 2 ddechrau ac i'r contractau gael eu dyfarnu cyn gynted ag y ceir y caniatâd adeilad rhestredig.

2.3 Cynadleddau cyfreithiol

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, ar y cyd â'r Gymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru, yn cynnal seminar fawr ar waith y Llys Gweinyddol yng Nghymru ddydd Gwener, 24 Ebrill. Bydd y digwyddiad (sydd wedi ennyn diddordeb mawr ymhlith y farnwriaeth, proffesiwn y gyfraith, cyfreithwyr academaidd a sefydliadau nad ydynt yn perthyn i'r Llywodraeth) yn nodi agoriad swyddfa'r Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd, sy'n garreg filltir bwysig yn natblygiad y system lysoedd yng Nghymru, ochr yn ochr â datganoli.

Mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda threfnwyr Cynhadledd Cymru'r Gyfraith (sydd wedi ei chynllunio ar gyfer mis Hydref) er mwyn gweld sut y gall y Cynulliad hyrwyddo'r digwyddiad, a fydd yn nodi 10 mlynedd o ddatganoli. Bydd y gynhadledd yn cynnwys anerchiad gan Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, yr Arglwydd Judge.

2.4 Cyfarfod y Clercod a'r Prif Weithredwyr

Cyfarfu Claire â'r Prif Weithredwyr o'r Alban a Gogledd Iwerddon i barhau â'r arfer o rannu syniadau a thrafod materion perthnasol. Ymysg y pynciau a drafodwyd oedd: rheoli newid ac wynebu'r dyfodol, mesur effeithiolrwydd a llwyddiant, cyflogau a lwfansau aelodau a phrosiect 'Democratiaeth yn Fyw' y

BBC. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mehefin lle mae disgwyl i'r Llywyddion gwrdd hefyd.

## 2.5 Democratiaeth ddigidol

Ar 24 Chwefror, cyfarfu Aled Eirug â Mark Coyle, Cyfarwyddwr Lansio prosiect 'Democratiaeth yn Fyw' y BBC. Rhoddwyd caniatâd ffurfiol i'r prosiect o fewn y BBC, a gall symud yn ei flaen i gyflogi staff a gwario ar elfennau mwy penodol o'r prosiect – fel caledwedd a systemau newydd gan gynnwys y system adnabod llais, Blinx. Penodir 13 newyddiadurwr ledled y DU i redeg y prosiect – chwech ym Millbank, tri yng Nghymru, a dau yr un yng Nghaeredin a Belfast.

Bydd yn bosibl chwilio drwy'r safle yn ôl termau, aelodau, materion a gweithdrefnau ffurfiol y sefydliadau. Mae'r dechnoleg 'lleferydd i destun' yn torri tir newydd oherwydd bydd yn bosibl chwilio am eiriau neu ymadroddion penodol. Mae'n bwysig pwysleisio na fydd yn dangos pob rhan o drafodion y sefydliadau, a'r ymrwymiad yw y bydd yn cynnwys trafodion y cyfarfodydd llawn yn bennaf a rhai pwyllgorau, ond nid pob un.

## 2.6 Y fforwm cydraddoldeb rhyngseneddol

Ar 10 a 11 Mawrth, cynhaliodd y Tîm Cydraddoldeb a Mynediad y 'gyfnewidfa gydraddoldeb' ryngseneddol gyntaf. Daeth ein tîm ni a thimau cydraddoldeb eraill o Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Thŷ'r Cyffredin at ei gilydd dros ddau ddiwrnod i rannu arferion gorau a safonau meincnodi. Cynhaliwyd cynhadledd ar y diwrnod cyntaf gydag araith gan Dr Neil Wooding, Comisiynydd Cydraddoldeb Cymru. Cafwyd sesiwn ryngweithiol hefyd a oedd yn defnyddio methodoleg dysgu gweithredol er mwyn cael strategaeth i lunio pecyn i asesu effaith cydraddoldeb. Mae pecynnau asesu effaith cydraddoldeb yn helpu'r staff sy'n llunio polisïau a gwasanaethau, sy'n cynnal prosiectau neu sy'n datblygu strategaethau, i weithredu ar sail tystiolaeth, heb roi unigolion neu grwpiau dan anfantais.

## 2.7 Penodi staff

Ymunodd dau aelod ychwanegol o staff gyda thîm y Gwasanaethau Cyfreithiol ym mis Rhagfyr - Stephen Davies (a benodwyd i'r tîm a arweinir gan Gwyn Griffiths) a Lisa Salkeld (sydd wedi ymuno â thîm Joanest Jackson).

Dechreuodd Helen Finlayson weithio fel cynorthwyydd personol i Claire Clancey ar 23 Chwefror. Yn ogystal â chynorthwyo Claire, bydd yn cynorthwyo'r Dirprwy Lywydd yn ogystal â gwneud gwaith yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad.

## 2.8 Canolfan Gogledd Cymru

Yn dilyn y penderfyniad i gael gwared ar y safle arddangos yng nghanolfan Bae Colwyn, rydym wedi bod yn gwneud rhai addasiadau a pheth gwaith ailwampio i'r swyddfeydd a'r ystafell gynadledda, a hynny er mwyn cynyddu'r defnydd o'r swyddfa yng Ngogledd Cymru. Mae hyn wedi cynnwys creu

derbynfa newydd a defnyddio paneli gwydr i gyd-fynd â'r gwaith ailwampio yn Nhŷ Hywel. Bydd sgrin blasma yn y dderbynfa yn darlledu busnes y Cynulliad ac mae podiau gwybodaeth o'r arddangosfa yn cael eu hailddefnyddio i ddarparu gwasanaethau rhyngweithiol i ymwelwyr. Gwnaed newidiadau i gynyddu maint yr ystafell gynadledda ac i wella'r ddarpariaeth fideo-gynadledda. Bwriedir i'r gwaith, sy'n ailddefnyddio'r cyfarpar presennol o'r arddangosfa lle bo hynny'n bosibl, ddod i ben erbyn diwedd mis Mawrth.

2.9 Christine Chapman, Cyflwyniad rapporteur ar ddyfodol Strategaeth Lisbon yr UE ar gyfer Twf a Swyddi

Mae Christine Chapman, cynrychiolydd y Cynulliad ym Mhwyllgor y Rhanbarthau, wedi cael ei dewis i adrodd ar ddyfodol Strategaeth Lisbon yr UE ar gyfer Twf a Swyddi. Mae Christine yn gobeithio gweld ei hadroddiad yn cael ei fabwysiadu yng nghyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym mis Rhagfyr eleni, a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith paratoi yn cael ei wneud rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf.

Bydd Gregg Jones, aelod o staff y Comisiwn yn ei swyddfa ym Mrwsel, yn cynorthwyo Christine gyda'r gwaith hwn. Bydd Gregg yn helpu Christine i ddrafftio ei hadroddiad, yn cydlynu'r cyngor arbenigol o Frwsel a mannau eraill ac yn cysylltu gyda gwasanaethau Pwyllgor y Rhanbarthau yn ystod y cyfnodau casglu tystiolaeth. Bydd hefyd yn helpu i ysgrifennu'r adroddiad, a diwygio a hyrwyddo'r gwaith. Bydd Christine a Gregg yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor a'r Pwyllgor Ewropeaidd a Chymdeithasol ym Mrwsel a Gwlad Pwyl. Mae disgwyl i'r adroddiad ddenu llawer o sylw yn y wasg a'r cyfryngau, ac ystyried arwyddocâd gwleidyddol Strategaeth Lisbon ar agenda'r UE. Mae'n debygol y bydd Christine yn cael ei gwahodd i siarad mewn nifer o ddigwyddiadau. Mae eisoes wedi cwrdd ag Llywydd y Comisiwn, Jose Manuel Barroso, ac wedi cael cyfweliadau gyda Phwyllgor y Rhanbarthau a The Parliament Magazine o ganlyniad i'r diddordeb a grëwyd gan ei phenodiad.

## 3. Adroddiad ariannol

3.1 Mae'r perfformiad ariannol ar gyfer yr 11 mis hyd ddiwedd mis Chwefror 2009 yn dangos tanwariant o £1.199m (3.5%). Y prif reswm dros hyn yw'r tanwariant mawr ar gyflogau a lwfansau'r Aelodau ac yn yr adran Rheoli Ystadau a Chyfleusterau, oherwydd daeth yr anfonebau i law am waith a phrosiectau amrywiol yn hwyrach nag a ddisgwyliwyd. Telir anfonebau'r adran Rheoli Ystadau a Chyfleusterau ym mis Mawrth 2009. Mae arbedion o £982,000 ar hyn o bryd ac maent yn llawer yn uwch na'r targed o £300,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan. Deilliodd yr arbedion hyn o swyddi a ddaeth yn wag yn ystod y flwyddyn. Lle bo hynny'n bosibl, defnyddiwyd yr arian i gyflawni anghenion annisgwyl neu i dalu am brosiectau newydd.

3.2 Amcangyfrifir mai £45.2m fydd yr alldro diwygiedig a ragwelir ar gyfer y flwyddyn lawn hyd at 31 Mawrth 2009, a hynny'n erbyn cyllideb o £46.2m, sy'n cynrychioli tanwariant o £1m neu 2.2%. Cododd y tanwariant, gan mwyaf, o ganlyniad i'r arbedion ar gostau staffio a grybwyllwyd yn gynharach (£0.9m), cyflogau a lwfansau'r Aelodau (£1.2m) a'r crèche (£0.4m). Gwrthbwyswyd y tanwariant hwn drwy ddwyn ymlaen wariant a phrosiectau eraill, megis creu Ystafell Bwyllgora 4 a gwelliannau cynaliadwyedd i leihau effaith allyriadau carbon ein hadeiladau a'n cyfarpar, megis oeryddion newydd ac ynysyddion ar gyfer peipiau. Hefyd, mae nifer o brosiectau TGCh yn cael eu cyflawni, gan gynnwys prosiect i-player a chyfnodau cyntaf i-change.

3.3 Mae'r tanwariant a ragwelir ychydig y tu hwnt i'r targed goddefiant o 2% a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn. Mae'r amcangyfrifon dangosol a gafwyd gan

Actiwari'r Llywodraeth ar gyfer yr addasiadau cyfrifo sydd angen eu gwneud i Gronfa Bensiwn yr Aelodau o dan Safon Adrodd Ariannol 17 o fewn dyraniad y gyllideb. Fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, ni fydd y sefyllfa derfynol yn wybyddus tan ddiwedd y flwyddyn ac oherwydd yr hinsawdd economaidd anodd, efallai y bydd y sefyllfa'n newid yn sylweddol. Mae hyn, yn y bôn, y tu hwnt i'n rheolaeth ni, er ein bod yn ei fonitro'n agos.

3.4 Mae'r crynodeb ariannol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2009 i'w weld yn **Atodiad A**.

3.5 Gan edrych ymlaen at 2009-10, mae'r sefyllfa ariannol gryn dipyn yn dynnach. Oherwydd hynny, bu'r Bwrdd Rheoli yn gweithio i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael yn 2008-09 drwy ddwyn ymlaen yn llwyddiannus ychydig o'r gwariant a gynlluniwyd ar gyfer blynyddoedd i ddod. Er gwaetha'r camau hyn, nodwyd prosiectau a gwariant ychwanegol eisoes ar gyfer 2009-10 a bydd y Bwrdd yn chwilio am ffyrdd o gynnwys y gwariant hwn drwy edrych ar y cyfleoedd i wneud arbedion mewn mannau eraill o fewn cyfanswm y gyllideb o £47.750m.

## 4. <u>Gwybodaeth arall</u>

4.1 Atodwyd rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn **Atodiad B**. Gellir rhoi rhestr lawn o'r wybodaeth a ddatgelwyd i'r Comisiynwyr ar gais.

**ATODIAD A**

Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Perfformiad Ariannol Ebrill 2008 – Chwefror 2009

| Gwasanaeth | Y gyllideb amlinell-ol (£'000) | Gwariant gwirion-eddol hyd yn hyn (£'000) | Y gyllideb sy'n weddill ar gyfer y cyfnod (£'000) | Amryw-iad % | Cyllideb flynydd-ol 2008-09 (£'000) | Y tanwar-iant / gorwar-iant a Ragwelir (£'000) | Yr alldro a ragwelir (£'000) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Uned Gorfforaethol | 1,550 | 1,453 | 97 | 6 | 1,671 | 98 | 1,573 |
| Y Gwasanaethau Cyfreithiol | 426 | 415 | 11 | 3 | 487 | 3 | 484 |
| | **1,976** | **1,868** | **108** | **6** | **2,158** | **101** | **2,057** |
| **Y GYFARWYDDIAETH WEITHREDIADAU** | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,287 | 1,355 | -68 | -5 | 1,431 | -10 | 1,441 |
| Yr Adran Rheoli Ystadau a Chyfleusterau | 9,567 | 9,122 | 445 | 5 | 10,510 | -205 | 10,715 |
| Gwasanaethau Cyllid | 705 | 645 | 60 | 8 | 790 | 72 | 718 |
| Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau | 11,314 | 10,814 | 500 | 4 | 13,664 | 1,345 | 12,319 |
| TGCh | 3,514 | 3,496 | 18 | 1 | 4,684 | -1 | 4,685 |
| Cyfathrebu Allanol | 1,681 | 1,664 | 17 | 1 | 2,100 | -20 | 2,120 |
| | **28,068** | **27,096** | **972** | **3** | **33,179** | **1,181** | **31,998** |
| **CYFARWYDDIAETH BUSNES Y CYNULLIAD** | | | | | | | |
| Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | 1,455 | 1,447 | 8 | 1 | 1,604 | 12 | 1,592 |
| Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth | 797 | 794 | 3 | 0 | 877 | - | 877 |
| PTRS | 1,648 | 1,555 | 93 | 6 | 1,880 | 85 | 1,795 |
| Gwasanaeth y Pwyllgorau | 991 | 981 | 10 | 1 | 1,091 | 16 | 1,075 |
| Yr Uned Gydgysylltu | 89 | 84 | 5 | 5 | 98 | 2 | 96 |
| | **4,980** | **4,861** | **119** | **2** | **5,550** | **115** | **5,435** |
| Is-gyfanswm | **35,024** | **33,825** | **1,199** | **3** | **40,887** | **1,397** | **39,490** |
| Dibrisiant a llog tybiannol | **-** | **-** | **-** | **-** | 4,775 | -320 | 5,095 |
| Is-gyfanswm | - | - | - | - | **45,662** | **1,077** | **44,585** |
| Cronfeydd heb eu neilltuo | - | - | - | - | 519 | -47 | 566 |
| **Cyfansymiau** | **35,024** | **33,825** | **1,199** | **3** | **46,181** | **1,030** | **45,151** |

**ATODIAD B**

## GWYBODAETH A RYDDHAWYD YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH CHWEFROR 2009

- Dyddiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar ystâd y Cynulliad lle'r oedd staff Baillee Gifford yn bresennol.
- Y cyflogau a'r treuliau a delir i'r 30 o'r staff sy'n cael eu talu fwyaf yng Nghomisiwn y Cynulliad.
- Eglurhad ynghylch cais honedig gan Aelod Cynulliad i gael ei ad-daliad am ddirwy barcio.

## GWYBODAETH NA CHAFODD EI RHYDDHAU YN DILYN CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH CHWEFROR 2009

Ni chafodd unrhyw wybodaeth ei dal yn ôl yn ystod y cyfnod hwn.